# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ1879(FM) a gyhoeddwyd gan Brian Gibbons, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ar ran y Prif Weinidog ar 10 Hydref 2006

**At Nick Bourne:**

Diolch i chi am godi'r mater o wasanaethau ar gyfer pobl ag epilepsi yng Nghymru yn ystod sesiwn cwestiynau'r Prif Weinidog ar 10 Hydref 2006. Gofynasoch:

Mae pobl yng Nghymru sy'n dioddef gan epilepsi'n gorfod disgwyl wyth mis i weld arbenigwr; dim ond chwe mis y mae'n rhaid disgwyl yn Lloegr. A yw hynny'n destun pryder i chi o gwbl? Os ydyw, beth yr ydych yn ei wneud yn ei gylch?

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod fod angen mewnbwn a chefnogaeth arbenigol er mwyn asesu a gwneud diagnosis o epilepsi a gall asesu fod yn broses amserol. Yr ydym hefyd yn cydnabod fod gwasanaethau i bobl ag epilepsi angen gwella er mwyn lleihau faint o amser mae'n rhaid i gleifion aros am ymgynghoriadau niwroleg fel cleifion allanol.

Yn ddiweddar, cyhoeddais ddatganiad cabinet ysgrifenedig ar yr union bwnc hwn a thanlinellu fod cynnydd wedi bod mewn lleihau amseroedd aros ar gyfer yr apwyntiad cyntaf gydag ymgynghorydd niwroleg, oedd yn glynu at dargedau amser aros y Cynulliad. Yn ystod y cyfnod o ddiwedd Mawrth i ddiwedd Awst elent, disgynnodd y nifer o gleifion oedd yn aros mwy nag wyth mis am eu hapwyntiad niwroleg cyntaf o 142 i 95, oedd yn glynu at y targedau a bennwyd ar gyfer Mawrth 2007. Bydd gostyngiadau pellach yn ystod 2007, gan lynu at ein hamcan cyffredinol o lwyddo i gael arhosiad o gyfeiriad meddyg teulu i driniaeth o 26 wythnos fan pellaf erbyn Rhagfyr 2009.

Mae'r Cynulliad wedi ymroi i wella'r gofal a chefnogaeth o bobl ag epilepsi a chyflyrau niwrolegol eraill. Mae cyfarwyddebau am ddatblygu'r gwasanaeth a chomisiynu yn cael eu datblygu ar hyn o bryd i wella iechyd, lles a darpariaeth gwasanaethau ar gyfer pobl ag epilepsi. Bydd hyn yn helpu i adnabod ffyrdd arloesol o weithio ar gyfer y dyfodol a bydd hefyd yn tanlinellu'r angen i ddefnyddio'r offerynnau sydd gennym yn barod i wella ansawdd y ddarpariaeth o ofal iechyd yng Nghymru, megis fframwaith ansawdd a chanlyniadau'r contractau meddygol cyffredinol newydd.

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ1902(FM) a gyhoeddwyd gan Andrew Davies, y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau, ar ran y Prif Weinidog ar 10 Hydref 2006

**At Janet Davies:**

Mae'r Prif Weinidog, Rhodri Morgan, wedi crybwyll y pwynt a wnaethoch yn y Cyfarfod Llawn ynglŷn â'ch cwestiwn atodol:

Pa gamau a gymerwch i sicrhau y defnyddir disel glân ar gyfer masnachfraint Cymru a'r Gororau ac unrhyw rai eraill y mae gennym ddylanwad arnynt—drwy ymgynghori â ni?

Yr wyf i a'm swyddogion yn cwrdd yn gyson gyda Threnau Arriva Cymru, ac ers ichi godi'r mater yn y pwyllgor ac imi ymateb, yr ydym wedi trafod y sefyllfa a'r opsiynau sydd ar gael. Yr wyf wedi cael ar ddeall fod TAC yn gweithio tuag at sylfaen sydd yn amgylcheddol iach, ond fod yn rhaid iddo weithio o fewn y cyfyngiadau sydd wedi eu gosod allan yn y

fasnachfraint, fel y cerbydau a ddefnyddir, ac, fel y gwyddoch, mae'r rhain yn aml ymhlith yr hynaf ar rwydwaith y Deyrnas Unedig.

Fodd bynnag, mae TAC ar flaen y gad o ran gweithio ar danwyddau a thechnolegau newydd ar gyfer y system rheilffyrdd ac amgaeaf ddatganiad diweddar i'r wasg gan yr Association of Train Operating Companies ynghylch y cynnydd a wnaed ar weithio tuag at ddisel heb sylffwr, a fydd o bosib o ddiddordeb i chi.

**Gwybodaeth ychwanegol at OAQ1907(FM) a gyhoeddwyd gan Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, ar ran y Prif Weinidog ar 10 Hydref 2006**

**At Janet Ryder:**

Yng nghwestiynau'r Prif Weinidog ar ddydd Mawrth 10 Hydref, crybwylloch y rhaglen Paid Cyffwrdd – Dwed!, gan ddweud eich bod wedi ei godi gyda fi yng Ngorffennaf, ond nad oedd dim wedi cael ei wneud ers hynny. Cytunais gyda'r Prif Weinidog y byddwn yn ymchwilio i'r mater ac ysgrifennu atoch i wneud pethau'n gliriach.

Mae gennym dimoedd cynghorol rhanbarthol camddefnyddio sylweddau'r Cynulliad ym mhob un o bedwar rhanbarth Cymru, ac mae tîm gogledd Cymru yn gwbl ymwybodol o'r prosiect hwn. Yr wyf wedi cael fy mriffio gan fy swyddogion ac fe wn fod canlyniadau gwerthusiad annibynnol yn ymddangos yn dra chalonogol.

Bwriadaf grybwyll y prosiect yn fy nghyfarfod nesaf gyda phedwar Prif Gwnstabl Cymru, fydd yn cael ei gynnal ar ddydd Llun, 6 Tachwedd. Byddwn yn ei drafod yng nghyd-destun y rhaglen ysgolion Cymru gyfan a sut allem ei hyrwyddo a phrosiectau tebyg, er mwyn cryfhau neges y rhaglen ysgolion Cymru gyfan drwy'r cwricwlwm Addysg Bersonol a Chymdeithasol.